# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 30.1.25

## Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh

**19:754: Presennol**: Bedwyr Fychan, (Cadeirydd y noson) Deryck Lewis, William Owen, Gareth Wyn Jones, Dafydd Evans, Huw Williams, Elwyn Vaughan, Sandra Evans (Clerc)

**19:755: Ymddiheuriadau**: Iwan Pughe Jones, Rhodri Wigley, Gwenfair Rhys-Davies, Gwen Lloyd, Paul Hughes, Gareth Owen, Glyn Jones, Aeron Pughe

**19:756: Materion Personol:**Dim

**19:757: Datganiadau o ddiddordeb**: Dafydd Evans (Cynllunio) Nodwyd hefyd na fyddai Elwyn Vaughan yn rhan o'r drafodaeth.

**19:758: Cyflwyno a derbyn cofnodion CCG Rhagfyr 2024**

**19:759: Materion yn codi o'r cofnodion.** (19:752) Nodwyd nad oes culvert yma ffordd sy wedi suddo. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Gareth Wyn Jones ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans.

**19:760: Cyflwyno a derbyn cofnodion cyfarfod arbennig CCG 22.1.25**

Nodwyd y dylid newid dyddiad y rheoliadau i 2025 sef dyddiad mabwysiadu'r rheoliadau gan y Cyngor. Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn fel arall gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Gareth Wyn Jones.

**19:761: Adroddiad y Clerc** – Nodwyd bod Cyngor Sir Powys wedi dweud y byddant yn gosod diffibriliwr Darowen yn fuan iawn.

**19:762: Ffyrdd a Phontydd** – Diolch yn fawr i Aled Griffiths am gyfarfod ag Aled Jones yn ddiweddar i drafod problemau ffyrdd. Diolch hefyd i Aled Jones am ei gyngor ac am ddatrys nifer o'r problemau yn y fan a'r lle. Dyma brif bwyntiau adroddiad Aled Griffiths:

- **Halen** – mae halen wedi cyrraedd rhai mannau yn unig ac yn hwyr yn cyrraedd o ystyried bod C.C. Glantwymyn wedi cyflwyno sawl cais ers mis Hydref 2024. Nodwyd bod diffyg cyllid yn cyfrannu at y broblem.
- **Twll yn y ffordd ger Glandulas.** Mae Aled Jones wedi rhoi gorchymyn i mewn i'w atgywiro.
- **Pont Ffriddgate** - Mae perchennog y goeden wedi torri'r goeden.
- **Glangwinedd** – coeden mewn afon – wedi ei hadrodd i Gyngor Gwynedd. **Cwmffrydlan** – ysbwriel heb ei glirio'n iawn ac mae angen bin mwy. Cysylltir â James Thomson, adran sbwriel.

**Llanwrin** - problem barhaus gyda dŵr ar y ffordd. Daw jetter ddiwedd Ionawr/Chwefror.

**Glandyfi/Grey House SY20 8QQ)- ffordd wedi suddo.** Aled Jones wedi'i ddatrys yn y fan a'r lle. **Llyn ar lwybr cyhoeddus.** Adroddir i Richard Jones – adran llwybrau cyhoeddus.

**Abernant** – pothole mawr - wedi ei lenwi.

**Gwaelod rhiw ger Aberffrydlan** – problem ers tarmacio'r ffordd. Adroddir hwn eto.

**Darowen -**Twll wrth ymyl Lleiniau wedi cael ei lenwi gan Aled Jones. Gwneir gwaith ymhellach e.e. ger Gwernbere pan ddaw'r tywydd.

**Diffyg lle i barcio ym mhentre Darowen -** Cyfrifoldeb C.C. Glantwymyn yw hwn. Trafodir ymhellach gyda chynghorwyr lleol.

**Ffordd gefn Abercegir i droad Nant y gaseg** yn cael ei chulhau gan eitemau wrth ochr y ffordd. Rhaid i'r ffordd fod o leiaf 2.5 medr o led – mater Heddlu yw cerbydau'n rhwystro'r ffordd

**Dail ar lwybr yng Nglantwymyn o'r ysgol i'r garej** – wedi'i sortio

**Cemaes –Dŵr yn cronni ger yr eglwys** – Adroddir i NMWTRA

**Pont garreg Cemaes** wedi ei thrwsio

**Cerbydau'n goryrru drwy Gemaes** Cysylltir â NMWTRA. Bydd Ken Skates yn cynnal arolwg cyflymder yng Nghemaes.

**Pryderon am ddiffyg pafin o'r briffordd i'r parc.** Yn dilyn ymateb Chris Lloyd o Gyngor Sir Powys cysylltir eto i ofyn am orchymyn arafu traffig a nodi nid yw'r cynghorwyr o'r farn bod cerbydau'n arafu wrth y gornel ger y parc a bod hynny'n ddigonol. Nodir hefyd bod y parc plant bach yn ddatblygiad ers i'r arwyddion cyfredol gael eu gosod ac nid yw'r ddarpariaeth yn ddigonol. Cynigiwyd hyn gan Gareth Wyn Jones ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans

**Adolygu arwyddion cyfyngder cyflymder Glantwymyn -** lleihau o 40 i 30 neu 20 mya. Cysylltir eto a NMWTRA yn y dyfodol. Nodwyd y gall unigolion adrodd ar Go Safe.

**Layby Dorcorslwyn** – Mae ysbwriel yma o hyd Adran Sbwriel Cyngor Powys / MWNTRA

**Pont Cwmlline** –y goeden heb gael ei symud ac yn dal i achosi perygl. Dylid cysylltu â'r perchennog tir ond tir comin yw hwn.

**Biniau Baw Cŵn Cwmlline** – angen bin ychwanegol – wedi cael ei hadrodd ers misoedd. Adroddir eto i'r Adran Sbwriel – James Thomson.

**19:762: Cynllunio**: 24/1868/FUL Newid capel yn gartref gofal plant a mynedfa newydd Capel Nebo, Glantwymyn SY20 8JZ Penderfynwyd peidio mynegi barn nes byddai mwy o gynghorwyr yn bresennol, yn enwedig cynghorwyr Glantwymyn. Ceir mwy o wybodaeth gan Gyngor Sir Powys a gwahodd cynrychiolydd.

**19:763: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Yswiriant Seiber £187.04 Coalition Risk Solutions Ltd. Yn dilyn ymgynghori gyda chynghorau cymuned lleol, Cyngor Sir Powys ac Un Llais Cymru, cynigiwyd mai doeth fyddai cymryd yr yswiriant hwn gan Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd yn unfrydol.
- Cyflog y Clerc Mis Rhagfyr (Mis 9) £235.80
- HMRC (6.10.24- 5.1.25) £513.60
- WR Partners 216861 (Cyflogres) £118.80

Cynigiwyd y dylid talu'r rhain Aled Griffiths ac fe'i heiliwyd gan Huw Williams.

- Aelodaeth NALC (Cymdeithas Cynghorau Lleol) Nid oedd angen talu hwn gan fod yr aelodaeth yn rhan o aelodaeth Un Llais Cymru
- Diweddariad Ffioedd Awdit a'r cynllun talu – Derbyniwyd y cynllun gan Swyddfa'r Awdit ar gyfer yr holl daliadau hanesyddol a ddaeth i law yn ddiweddar. Telir £777.00 yn ogystal â ffi archwilio cyfrifon 2021/22 £260.00. Cynigiwyd y dylid talu'r rhain gan Gareth Wyn Jones ac fe'i heiliwyd gan William Owen. Nodwyd y bydd rhaid nodi'r taliadau ar gyfer y dyfodol wrth gyflwyno'r ceisiadau praesept yn y blynyddoedd nesaf.

**19:764:** Torrwr gwair mynwentydd. Cyflwynir hysbyseb yn y Blewyn Glas yn ôl yr arfer. (Dyddiad cau 20.3.25) Hefyd rhywun i wneud gwaith cynnal a chadw meinciau a lloches bws. Cytunwyd yn unfarn.

**19:765:** Biniau halen Darowen - Gohiriwyd y drafodaeth gan nad oedd cynghorwyr Darowen yn bresennol.

**19:766:** Swyddfeydd post cymunedol - Mynegwyd diolch helaeth i Mrs. Lil Humphreys am ei gwasanaeth amhrisiadwy i'r gymuned a dymunir yn dda iddi ar ei hymddeoliad. Mae'r Cyngor yn cytuno mewn egwyddor i gefnogi swyddfa bost gymunedol.

**19:767: Gohebiaeth** Derbyniwyd llythyron gan Ken Skates, a drafodwyd uchod

**19:768: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan.

- Cafwyd cyfarfod cyhoeddus yn Aberystwyth i drafod y posibilrwydd y bydd uned strôc Bronglais yn symud i Lanelli.
- Ambiwlans awyr – mae'r her gyfreithiol yn mynd rhagddo yn ei erbyn o fewn y mis.
- Tynnwyd sylw at gronfa gyfalaf gan Lywodraeth Cymru y bydd ar gael i'r ysgol feithrin a neuadd Glantwymyn wneud cais drwy Gyngor Sir Powys
- Ffordd Gwastadcoed mewn cyflwr gwael ond mae Cyngor Sir Powys a Network Wales yn cyfarfod yn gyson ac erbyn hyn maent wedi mapio a chostio. Byddant yn cyfarfod eto cyn pen y mis.

**19:769: Unrhyw Fater Arall**

- Halen Darowen a Cheinws
- Cysylltir ô James Thomson ynglyn â biniau baw cŵn Cwmlline i nodi nad yw'r tir lle saiff y bin dan berchnogaeth CCG a gofyn eto am fin ychwanegol.
- Defaid yn crwydro ym mhentre Llanwir. Cysylltir â'r sawl y tybir eu bod yn gyfrifol.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.43

**Ymddiriedolaeth Melinau Gwynt Cemaes 30.1.25**

- Meinciau – Diolch yn fawr i Paul Hughes am arolwg manwl o holl feinciau ardal y Cyngor. Prynnir mainc i Geinws a thrwsio'r lleill.
- Ysgol Glantwymyn – Cais am gyfraniad tuag at daith addysgol i bentref Fictoraidd yn Iron Bridge. Canmolwyd yr ysgol am ddarparu cyfleoedd i bob plentyn gan gydnabod hefyd gyfraniadau Cyfeillion yr Ysgol. Penderfynwyd cyfrannu £1,300.
- Gwahoddir cwmni Galileo i gyfarfod mis Chwefror.
- Cysylltir ag EDF i gadarnhau bod y cyfraniadau'n 'index linked'.
  Daeth y cyfarfod i ben am 10.00yh.